# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 18 - 09 (p3) : 23 Medi 2009**

## Y diweddaraf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru - Adroddiad Grŵp Rapporteur y Pwyllgor Menter a Dysgu: 'Cymorth i Bobl â Dyslecsia yng Nghymru'

### Jane Hutt, Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Rwy'n falch o ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sydd wedi'u cymryd ers ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu, 'Cymorth i Bobl â Dyslecsia yng Nghymru'.

Yn dilyn lansio adroddiad y Pwyllgor yn 2008, sefydlwyd tasglu bychan o arbenigwyr ym maes Anawsterau Dysgu Penodol o bob cwr o Gymru i ystyried argymhellion yr adroddiad a rhoi cyngor i mi am sut i symud ymlaen.

Roeddynt yn awgrymu:

cynnal arolwg llenyddiaeth ar arferion cyfredol yng Nghymru a thu hwnt; a

archwilio a meincnodi arferion effeithiol ar draws Cymru er mwyn datblygu arweiniad a fydd yn cynnwys enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer yr holl randdeiliaid gan gynnwys ymchwil i effeithlonrwydd gwahanol ddulliau o fodloni anghenion dysgwyr unigol.

Er mwyn cyflawni rhai o'r argymhellion yn llawn, yr wyf wedi clustnodi £118,000 dros y ddwy flynedd nesaf i gynnal arolwg o'r llenyddiaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar ddyslecsia. Yn ogystal, bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i gynnal ymarfer meincnodi ar y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru ar hyn o bryd.

Bydd yr arolwg llenyddiaeth yn cwmpasu'r diffiniadau presennol o ddyslecsia, y nodweddion sy'n ei ddynodi, yr arfau asesu a sgrinio sydd ar gael, y gweithdrefnau ar gyfer adnabod a chanfod yn gywir a dulliau effeithiol ar gyfer bodloni anghenion plant a phobl ifanc sydd â dyslecsia. Ychwanegwyd testunau eraill i gynnwys adolygiad o'r llenyddiaeth drawsieithyddol ar ddyslecsia (yn cynnwys siaradwyr uniaith a dwyieithog/darllenwyr ieithoedd amrywiol), a gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud ar ddyslecsia ymysg siaradwyr/darllenwyr Cymraeg. Daw'r adolygiad i ben gyda diffiniad arfaethedig ar gyfer dyslecsia a fydd yn tywys polisi, y ddarpariaeth ac ar gyfer ystyried y goblygiadau i wasanaethau ar gyfer disgyblion a myfyrwyr sydd â dyslecsia yng Nghymru.

Cynhelir ymarfer meincnodi i fapio'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ar gyfer dyslecsia ac anawsterau dysgu penodol ar draws Cymru mewn ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Amcan yr ymarfer hwn yw ystyried pa asiantaethau ac unigolion sy'n darparu cymorth a pha ddulliau ar gyfer asesu ac ymyrryd sy'n cael eu defnyddio. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o gynnyrch FastForWard yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.

Fel y crybwyllais yn gynharach, bydd y cyllid yr wyf wedi'i ddarparu dros y ddwy flynedd nesaf i gynnal arolwg llenyddiaeth o'r arferion a'r dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gynorthwyo plant a phobl ifanc â dyslecsia ac i archwilio a meincnodi arferion cyfredol ledled Cymru o gryn gymorth i gyflawni'r argymhelliad hwn.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi awgrymu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gasglu gwybodaeth am faint o blant ysgol sydd â dyslecsia. Yn fy ymateb gwreiddiol, esboniais ein bod yn 2007 wedi adolygu'r ffordd y cesglir data drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD - PLASC) ar gyfer disgyblion ag amrywiol anghenion addysgol arbennig er mwyn gwella ein ffordd o reoli gwybodaeth yn y maes hwn. 2008-2009 oedd y flwyddyn gyntaf lle cafodd y data ei gasglu yn dilyn yr arweiniad diwygiedig a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol yn 2007.

Bydd y newidiadau i'r ffordd y cesglir data yn ein galluogi nid yn unig i ddeall natur anghenion disgybl ond hefyd faint o gefnogaeth sy'n cael ei darparu. Rhagwelir y bydd gwella'r gwaith o gasglu data yn rhoi'r gallu i awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr addysg eraill nodi, cefnogi a chynllunio darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag AAA a thrwy hynny gynnig dull cyson ar gyfer bodloni'u hanghenion. Mae swyddogion wedi sefydlu grŵp mewnol i ystyried a oes angen inni newid rhagor ar y categori Anhawster Dysgu Penodol (SpLD) yn CYBLD er mwyn dadansoddi anawsterau penodol ar wahân h.y. dyslecsia, dyspracsia a discalcwlia. Fodd bynnag, bydd rhaid ystyried rheolau datgelu a phryderon nad oes modd dod i gasgliadau pendant o ddata ar niferoedd bychain o unigolion.

Hefyd, bydd yr ymarfer meincnodi yn nodi'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer dyslecsia ac anawsterau dysgu penodol ar draws Cymru mewn ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, a bydd hynny'n rhoi'r wybodaeth am niferoedd inni, fel yr awgrymwyd gan y Grŵp Rapporteur.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ailasesu cynnwys cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) er mwyn gwella dipyn ar ddealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o Anghenion Dysgu Ychwanegol a'n bod yn ailasesu'r hyfforddiant a roddir i gynorthwywyr dosbarth, yn arbennig fel rhan o'r Cyfnod Sylfaen, i sicrhau bod dysgu'r sgiliau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dod yn rhan orfodol o'r hyfforddiant cychwynnol ar gyfer cynorthwywyr dosbarth ac yn rhan orfodol o'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Fel y nodais yn fy ymateb gwreiddiol, bwriad HCA yw rhoi i fyfyrwyr y gofynion hanfodol angenrheidiol i alluogi athrawon newydd gymhwyso i addysgu ar draws y cyfnodau allweddol a'r pynciau y maent wedi'u hyfforddi ar eu cyfer. Mae hynny'n cynnwys anghenion addysgol arbennig ond mae'r amser sydd ar gael ar gyfer meysydd astudio mwy arbenigol yn gyfyngedig. Bydd hyfforddiant arbenigol mwy manwl ym maes AAA yn fwy addas pan fydd athro wedi cwblhau ei HCA a'i flwyddyn ymsefydlu.

I’r diben hwn, ym mis Hydref 2007, fe wnaethom lansio cwrs e-ddysgu dwyieithog ar gyfer AAA fel rhan o gwrs hyfforddi blaengar ar gyfer athrawon a staff cymorth. Ei nod yw gwella dealltwriaeth a gwybodaeth athrawon a staff cymorth sy’n gweithio gyda disgyblion ag AAA a hefyd codi ymwybyddiaeth am y ffactorau sy'n gysylltiedig â datblygu ysgol gynhwysol.

Mae un o fodiwlau’r cwrs e-ddysgu’n ymdrin ag Anawsterau Dysgu Penodol, gan gynnwys dyslecsia a chydlyniant datblygiadol. Nod cyffredinol y modiwl hwn yw darparu strategaethau cymorth yn y dosbarth i athrawon a staff cymorth. Mae’n darparu cymorth ar sut y gall dyslecsia amlygu'i hun yn y dosbarth ac felly sut y gall athrawon a staff cymorth reoli’r anhawster yn effeithiol.

Ar gyfer athrawon sy’n ceisio achrediad, mae’r cwrs dwyieithog hwn yn cael ei achredu ar lefel 6 ôl-radd. Gall staff ysgol a'r rheini sy’n cofrestru gyda sefydliadau AU gael mynediad i’r cwrs hwn. Mae ar gael hefyd fel adnodd i bob ysgol yng Nghymru drwy'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru a gall staff gael mynediad ato ar-lein drwy eu dewis iaith.

Mae’r cwrs ar gael i bob athro yng Nghymru drwy'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu ac mae nawdd ar ei gyfer ar gael drwy'r Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer y rheini sy'n dymuno dilyn y llwybr achrededig. Rwy’n falch o ddweud bod 59 o athrawon wedi cofrestru ers i’r cwrs ddechrau yn 2007 a disgwylir i’r garfan gyntaf o fyfyrwyr raddio y mis hwn o’r tri Sefydliad Addysg Uwch sy’n gysylltiedig (Medi 09).

Yr ydym yng nghamau cynnar datblygu strwythur ar gyfer cynorthwywyr dosbarth a bydd hwn yn cynnwys edrych ar eu hyfforddiant a’u datblygiad proffesiynol parhaus. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu syniadau am y ffordd y gallwn gyflawni ymrwymiad "Cymru’n Un" o sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc anabl yn cyflawni'u potensial yn llawn. Byddwn yn trafod cynigion yn ehangach gyda rhanddeiliaid yn yr hydref.

Gan droi yn awr at y rôl bwysig y gall y Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ei chyflawni yn cefnogi disgyblion ac athrawon dosbarth, mae un o argymhellion Adroddiad y Pwyllgor yn awgrymu adolygu'r hyfforddiant ar gymorth ar gyfer dyslecsia sydd ar gael i'r Cydlynwyr AAA a bod Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu darpariaeth ychwanegol yn ôl yr angen i sicrhau lefel arbenigedd fwy cyson ymysg yr holl Gydlynwyr AAA.

Dan y rhaglen Diwygio Statudol, rydym wedi datblygu pedwar Prosiect Peilot i ffurfio system arloesol a llawer gwell ar gyfer sicrhau bod anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu bodloni a’u bod yn derbyn addysg o’r radd flaenaf. Mae’r rhaglen yn deillio o ymgynghoriad cychwynnol eang ar ddewisiadau ar gyfer diwygio'r fframwaith asesu statudol yng Nghymru.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gydag wyth awdurdod lleol ar fanylion y cynlluniau peilot, gyda’r bwriad o gychwyn y gwaith y mis hwn (Medi 2009). Bydd un o’r prosiectau’n ystyried pob agwedd ar rôl y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig o fewn cyd-destun anghenion dysgu ychwanegol.

Mae awdurdodau lleol Caerdydd a Chasnewydd yn cyfrannu er mwyn datblygu a threialu rôl cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCO) mewn ysgolion prif ffrwd. Bydd hyn yn cynnwys adolygu’r arferion cyfredol sy’n ymwneud â diwallu anghenion pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd a gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i dreialu cwrs achrededig ar gyfer cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol ledled Cymru.

Byddant hefyd yn treialu amryw o fodelau eraill gan gynnwys defnyddio cynorthwywyr addysgu a gweinyddol i gefnogi rôl yr athro. Bydd gwaith datblygu pellach, a fydd yn cynnwys adolygu Cod Ymarfer AAA Cymru, yn parhau ochr yn ochr â'r cynlluniau peilot.

Yn ddiweddar, rwyf wedi cytuno i ddarparu £2 miliwn (dros y tair blynedd ariannol nesaf) i sefydlu’r cynlluniau peilot hyn, a rôl y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol dim ond yn un ffordd o brofi ffyrdd newydd o weithio fel rhan o'r broses o ddiwygio'r system bresennol yng Nghymru.

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu ymchwil i ystyried ymarferoldeb a chostau posibl hyfforddi athro arbenigol ymhob ysgol i lefel ôl-radd i gefnogi plant â dyslecsia.

Mae Dyslexia Action, elusen genedlaethol sy'n darparu gwasanaethau a chymorth i bobl â dyslecsia ac anawsterau llythrennedd yn cynnig Tystysgrif Ôl-radd mewn Dyslecsia a Llythrennedd, a hwnnw’n gwrs cynhwysfawr o 6 modiwl, a phob un yn gofyn am ryw 100 awr o astudiaeth ac yn werth 10 credyd.

Mae’r cwrs wedi'i strwythuro fel bo'r modiwlau addysgu ymarferol yn cael eu hastudio ochr yn ochr â’r modiwlau sy’n gysylltiedig ag ymchwil a theori. Mae’r athrawon yn ennill sgiliau yn ymwneud â sut i gynllunio rhaglenni ac addysgu dysgwyr dyslecsig a hefyd yn datblygu dealltwriaeth am ddatblygiad a strwythur iaith, persbectif seicolegol dyslecsia ac egwyddorion asesu.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal astudiaeth o fanteision y cwrs hwn ac rwyf wedi gofyn i’m swyddogion drafod opsiynau ar gyfer datblygiadau i’r dyfodol yn y maes hwn gyda darparwyr y cwrs ac awdurdodau lleol.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth ddiweddaraf uchod yn eich sicrhau ein bod wedi mynd gryn ffordd tuag at weithredu'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor.